

Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Zoom

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 5 Awst 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

285(v3) Adalw'r Senedd o dan Reol Sefydlog 34.9 yw'r cyfarfod hwn

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo. Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A–D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

1 Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws (COVID–19)

(45 munud)

2 Aelodaeth Pwyllgorau

(5 munud)

NDM7361 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Angela Burns (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

NDM7362 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Suzy Davies (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.



NDM7363 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Andrew RT Davies (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn lle Angela Burns (Ceidwadwyr Cymreig).

NDM7364 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Janet Finch-Saunders (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn lle Andrew RT Davies (Ceidwadwyr Cymreig).

NDM7365 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol David Melding (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn lle Suzy Davies (Ceidwadwyr Cymreig).

NDM7366 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Laura Anne Jones (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn lle David Melding (Ceidwadwyr Cymreig).

NDM7367 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Laura Anne Jones (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn lle Janet Finch-Saunders (Ceidwadwyr Cymreig).

Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân: (cyfanswm o 30 munud)

3 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

NDM7358 [Rebecca Evans \(Gwyr\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Gorffennaf 2020.

Dogfennau ategol

[Memorandwm esboniadol](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#)

4 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020

NDM7359 [Rebecca Evans \(Gwyr\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Gorffennaf 2020.

Dogfennau ategol

[Memorandwm esboniadol](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#)

5 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

NDM7360 [Rebecca Evans \(Gwyr\)](#)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Gorffennaf 2020.

Dogfennau ategol

[Memorandwm esboniadol](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#)

6 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 26 Awst 2020